Cyfoeth Bywyd Addysg

# Swydd: Pennaeth




Cyngor **Sir Gâr**
**Carmarthenshire**
County Council

Annwyl Ymgeisydd,

Diolch am ddangos diddordeb yn rôl Pennaeth Ysgol Gyfun Maes Y Gwendraeth.

Mae Ysgol Maes Y Gwendraeth yn ysgol Uwchradd Gymraeg fywiog, wedi'i lleoli yng Nghefneithin, yng nghalon Cwm Gwendraeth, Sir Gâr. Ar hyn o bryd, mae 1088 o ddisgyblion yn yr ysgol rhwng 11-18 oed, yn cynnwys Canolfan Yr Eithin ar y safle. Cymraeg yw iaith bob dydd yr ysgol a phrif gyfrwng y dysgu a'r addysgu a daw 60% o'r disgyblion o gartrefi lle ceir Cymraeg ar yr aelwyd.

Mae'r ysgol yn uchel ei pharch yn y gymuned addysgol a chymunedau ehangach, ac mae wedi profi llwyddiant ar lefel genedlaethol mewn sawl maes. Nod yr ysgol yw creu amgylchedd ddysgu hapus, ddiogel ac ysgogol, a darparu cyfleoedd sy'n galluogi pob aelod o gymuned yr ysgol fagu hyder a datblygu i'w llawn botensial, yn academaidd, cymdeithasol, diwylliannol, moesol a chorfforol.

Dymuna'r llywodraethwyr benodi unigolyn blaengar, uchelgeisiol a deinamig, sy'n ymarferydd ysbrydoledig, brwdfrydig ac ymroddgar, i arwain yr ysgol i lwyddiant pellach, drwy sicrhau cyfleoedd dysgu rhagorol a chyson i bob disgybl, a chodi'r safonau uchel ymhellach, gan anelu at ragoriaeth.

Mae Ysgol Maes Y Gwendraeth yn ysgol hapus, fywiog, brysur a chyffrous. Mae gennym staff ymroddgar sy'n gweithio'n ddiwyd i ddarparu ystod o brofiadau ar gyfer holl ddisgyblion yr ysgol, ac i roi dilyniant i'r sylfeini cadarn a osodwyd yn ystod eu cyfnod addysg cynradd.

Mae'r ysgol yn arloesi mewn amrywiol feysydd ac yn rhannu arferion da gydag ysgolion eraill. Mae hyn yn cynnwys enghreifftiau o fod yr ysgol gyntaf yng Nghymru i rhoi 'Chromebooks' i bob disgybl bl.7 a pheilota cynlluniau digidol ac elfennau TG eraill. Rydym hefyd yn cynnig cyfleoedd i fyfyrwyr ddod i'r ysgol ar leoliad ymarfer dysgu ac rydym yn falch i gefnogi athrawon sydd newydd gymhwyso ynghyd â manteisio a chefnogi cynllun Llywodraeth Cymru o annog athrawon i bontio o'r sector cynradd i'r uwchradd.

Ymfalchïa'r ysgol yn y cyfleoedd allgyrsiol eang a gynigir i'r disgyblion. Ceir amrywiaeth o glybiau amser cinio ac ar ôl ysgol ac ymweliadau addysgiadol, lle bo'n briodol, i gefnogi ein themâu. Mae teithiau preswyl i wersyll yr Urdd, Llangrannog, Caerdydd a Glan Llyn yn hynod o boblogaidd ynghyd â'r tripiau a drefnir gan yr adrannau ledled y byd yn cynnwys Efrog Newydd, yr Almaen a Gwlad Pwyl, Paris, Gwlad yr Ia, Madrid a'r teithiau sgio i Awstria.

Mae'r ysgol hefyd wedi serennu mewn cystadlaethau cenedlaethol amrywiol ac wedi bod yn llwyddiannus iawn yn flynyddol yn Eisteddfod yr Urdd, yr Ŵyl Gerdd Dant a'r Eisteddfod Genedlaethol ac yn edrych ymlaen i gymryd rhan blaenllaw pan ddaw 'Steddfod yr Urdd i Lanymddyfri, o fewn dalgylch yr ysgol flwyddyn nesaf.

Yn ogystal â thraddodiad cerddorol cryf, mae'r ysgol yn cystadlu mewn cystadlaethau chwaraeon lleol, sirol a chenedlaethol mewn amryw o feysydd ac yn ymfalchïo yn llwyddiant ein unigolion a'n timau. Mae'r ysgol hefyd yn gryf o blaid cyflwyno hanes, diwylliant a threftadaeth leol a chenedlaethol, gan fagu balchder mewn Cymreictod. Bu'r ysgol yn cymryd rhan yn y cwis llyfrau cenedlaethol ar sawl achlysur yn ogystal â chystadlaethau eraill megis 'Un Cwestiwn' a.y.y.b.

Mae gan yr ysgol berthynas gadarnhaol â'r ysgolion cynradd sy'n bwydo blwyddyn 7 a chroesawir y plant cyfnod pontio i ymweld a'n safle ar sawl achlysur i ymgyfarwyddo ag amgylchedd a bywyd bob dydd ysgol Uwchradd.

Rydym yn ffodus o gael Cymdeithas Rieni gefnogol a gweithgar sy'n codi arian, darparu cyfleoedd cymdeithasol, a threfnu digwyddiadau yn yr ysgol ac yn y gymdogaeth lleol.

Mae llais y plentyn yn greiddiol a chanolog i holl waith yr ysgol, ac mae'r disgyblion wrth eu bodd yn cymryd cyfrifoldeb dros amrywiaeth o benderfyniadau a gweithgareddau drwy'r Cyngor Ysgol a'i bump is-bwyllgor, sef 1) Llais Maes, 2) Iechyd a Lles, 3) Cymreictod, 4) Eco/amgylchedd, a 5) Cymunedol. Braf yw gweld ein cyn-ddisgyblion yn mentro a llwyddo mewn ystod swyddi amrywiol hefyd, yn cynnwys actorion, meddygon, athrawon, darlithwyr, pobl fusnes, cyflwynwyr radio a theledu, a hyd yn oed Rhif 9 i dîm rygbi cenedlaethol Cymru, ond oll wedi cychwyn eu prentisiaeth yn yr ysgol hon.

Dyma ysgol gynhwysol, sy'n barod i roi arweiniad, hyder a chyfle i bawb, beth bynnag eu cefndir a'r llwybr a ddewisir. Nododd adroddiad diweddaraf Estyn bod gan yr ysgol ethos deuluol, gofalgar a chroesawgar iawn, ble mae'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel a hapus, ac yn cael eu trin â pharch.

Rydym am greu cenhedlaeth o bobl ifanc a dysgwyr gydol oes uchelgeisiol, mentrus, egwyddorol, hyderus, cydwybodol a rhugl ddwyieithog, a bydd disgwyl i'r Pennaeth newydd barhau i weithredu'r weledigaeth hon. Mae gan yr ysgol rôl arbennig i gynnig cyfle i genedlaethau o blant yr ardal i ddilyn addysg cyfrwng Gymraeg a chyfrannu'n bositif tuag at nod Llywodraeth Cymru o greu miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Mae'r ysgol yn cynnig ystod o gyfleodd arbennig, unigryw a Chymreig i'r disgyblion, a bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn gyfrifol am arwain tîm brwdfrydig o staff i weithredu egwyddorion a phedwar diben y Cwricwlwm i Gymru.

Mae'r Corff Llywodraethol yn gydwybodol ac yn cymryd ei gyfrifoldeb o ddifri, a bydd gan y Pennaeth gefnogaeth bersonol gref, a fydd o gymorth i sicrhau lles parhaus disgyblion a staff, a llwyddiant parhaus yr ysgol.

Os oes gennych ddiddordeb yn y cyfle unigryw hwn a'ch bod yn ymroddgar i fynd ati i arloesi a gwneud gwahaniaeth, byddwn yn hapus i groesawu eich cais.


| | |
|---|---|
| Dyddiad cau: | Dydd Llun, 6ed o Chwefror 2023 |
| Creu rhestr fer: | Dydd Mercher, 15eg o Chwefror 2023 |
| Cyfweliadau: | Dydd Iau, 30ain a Dydd Gwener, 31ain o Fawrth 2023 |


Ceir manylion pellach am yr ysgol yn y prosbectws ac adroddiad diweddaraf ESTYN ar wefan yr ysgol (Maes y Gwendraeth (google.com))


Os dymunwch sgwrs anffurfiol gyda minnau, cysylltwch a'r ysgol ar 01269 833900 i drefnu.


Yr yn gywir iawn,

Dafydd H. Jones
Cadeirydd y Bwrdd Llywodraethol









## Prif Ddiben y Swydd:

Mae'r Pennaeth yn atebol i Corff Llywodraethol am yr arweinyddiaeth, y cyfeiriad strategol a rheolaeth weithredol Ysgol Maes Y Gwendraeth er mwyn sicrhau fod nodau'r ysgol yn cael eu gweithredu yn unol â chynllun datblygu'r ysgol a pholisïau'r Corff Llywodraethol. Bydd hyn yn darparu sail gadarn i gyflawni safonau uchel ymhob agwedd o fywyd yr ysgol.

Bydd disgwyl i'r Pennaeth fonitro, gwerthuso ac adolygu effaith y polisïau, blaenoriaethau a thargedau'r ysgol a gweithredu arnynt fel sydd angen. Mae'r Corff Llywodraethol wedi ymrwymo i ddiogelwch a lles disgyblion a staff. Rhaid i'r Pennaeth sicrhau fod y flaenoriaeth bennaf yn cael ei roi i ddilyn y canllawiau a'r rheoleiddiadau i ddiogelu bob disgybl.

## Prif Gyfrifoldebau:

Arweinyddiaeth:

- Hyrwyddo addysgu yng Nghymru fel ymrwymiad proffesiynol o ran statws, uniondeb a pharch.
- Blaenoriaethu a chynllunio'n effeithiol i sicrhau bod y sylw priodol yn cael ei roi i'w lwyth gwaith ei hun a llwyth gwaith eraill.
- Arfer cyfrifoldeb corfforaethol ymhlith yr holl gydweithwyr drwy sicrhau bod dyletswyddau ac amodau proffesiynol y gyflogaeth fel y'u nodir mewn gofynion statudol, gan gynnwys y rheiny ar gyfer y Pennaeth, yn cael eu cyflawni.
- Ystyried profiad cydweithwyr eraill, yr heriau y maent yn eu hwynebu, ac yn eu hannog i ffynnu.
- Dirprwyo cyfrifoldeb yn effeithiol a defnyddio sgiliau priodol i reoli pobl er mwyn cyflawni effeithiolrwydd.
- Adeiladu rhwydweithiau effeithiol o wybodaeth, ymchwil ac arbenigedd ymarferol i alluogi ysgolion a lleoliadau eraill i elwa drwy gydweithio â'i gilydd.
- Sicrhau bod gweledigaeth yr ysgol yn eglur, a'i bod yn cael ei rhannu, ei deall a'i gweithredu'n effeithiol gan bawb.
- Sicrhau bod cynllunio strategol yn ystyried cyd-destun yr ysgol a'r gymuned.
- Defnyddio ystod eang o wybodaeth a data i osod disgwyliadau uchel, targedau uchelgeisiol a blaenoriaethau allweddol. Gwerthuso perfformiad ysgol, nodi blaenoriaethau ar gyfer gwelliant parhaus ac adrodd yn glir i ystod o gynulleidfaoedd.
- Defnyddio adnoddau, gan gynnwys adnoddau ariannol, i gyflawni nodau'r ysgol yn effeithiol.

Addysgeg:

- Rhoi dysgu ar gyfer pob disgybl, waeth beth fo'i angen, wrth wraidd cynllunio strategol a rheoli adnoddau ac adrodd ar ei effaith.
- Yn dangos gwybodaeth fanwl am ddulliau ac ymyriadau arbenigol i gefnogi anghenion ystod amrywiol o ddisgyblion ag anawsterau dysgu ac anghenion cymhleth.
- Derbyn atebolrwydd am ganlyniadau a lles.
- Sicrhau atebolrwydd am addysgeg eraill drwy greu a chynnal yr amodau i wireddu'r pedwar diben i bob dysgwr a chyflawni'r gorau iddynt o ran safonau, lles, a chynnydd.
- Cynnal addysgu effeithiol o ansawdd uchel sy'n hybu ymgysylltu, annibyniaeth a medrau

meddwl y disgyblion.

- Sefydlu a chynnal ethos o her a chefnogaeth lle gall pob dysgwr lwyddo.
- Rhoi strategaethau ar waith i sicrhau gweithdrefnau asesu effeithiol, gan gynnwys asesu ar gyfer dysgu, agweddau cadarnhaol a sgiliau meddwl.
- Sicrhau bod strategaeth a seilwaith yn addas i'r pwrpas yn y cyd-destun arbenigol hwn, er mwyn creu amgylchedd dysgu effeithiol a chynhwysol.
- Hyrwyddo ystod o ddulliau addysgeg perthnasol i alluogi pob disgybl i gael mynediad at brofiadau dysgu cadarnhaol a theg.
- Cael gwared ar rwystrau, fel y gwrandewir ar bob disgybl, ac y gweithredir ar eu barn.
- Yn defnyddio adnoddau creadigol ac arloesol, gan gynnwys technolegau newydd i gyflawni rhagoriaeth.
- Hyrwyddo'r iaith Gymraeg a'i diwylliant mewn ffyrdd perthnasol ac ysbrydoledig.
- Optimeiddio disgyblaethau pwnc mewn meysydd dysgu mewn ffyrdd hynod berthnasol.
- Sicrhau cyd-destunau bywyd go iawn, dilys ar gyfer dysgu.

Dysgu Proffesiynol:

- Datblygu agwedd adeiladol a pherthnasol at astudio ac ymchwilio.
- Annog ymagwedd adeiladol a pherthnasol o addysgu ac ymchwilio ymhlith cydweithwyr.
- Cyfrannu i rwydweithiau, cymunedau, cynadleddau neu gyhoeddiadau proffesiynol perthnasol.
- Cefnogi model twf ac arweinyddiaeth ar draws y system.
- Bod yn esiampl dda ar gyfer dysgu proffesiynol, fel bod y cwricwlwm newydd yn cael ei weithredu'n llwyddiannus, ac annog galluoedd o ran addysgeg a'r gallu i arwain ymhlith cydweithwyr.
- Sicrhau dysgu proffesiynol parhaus a phenodol i'r holl staff, gan gynnwys eich hun, o fewn cyd-destun y pedwar diben.
- Datblygu, grymuso a chynnal timau effeithiol.
- Cydnabod a dathlu cyfrifoldebau a chyflawniadau unigolion a thimau.

Arloesi:

- Sicrhau bod yr ysgol yn datblygu ac yn mireinio systemau'r 21ain ganrif i ddatblygu dysgu proffesiynol o fewn a thu hwnt i gwricwlwm yr ysgol.
- Datblygu rhaglenni sy'n seiliedig ar dystiolaeth, sy'n strwythuredig ac yn arloesol er mwyn ateb heriau, rheoli newid a symud dysgu ymlaen mewn ffyrdd effeithiol.
- Sicrhau bod arbenigedd a phrofiad perthnasol yn cael eu datblygu a'u rhannu o fewn yr ysgol, ar draws yr ysgol, a thu hwnt iddi.
- Casglu a rhannu arferion arloesol, yn yr ysgol a thu hwnt, er mwyn iddi gyfrannu at ddealltwriaeth gynyddol a datblygiadau cysylltiedig eraill mewn mannau eraill.

Cydweithio:

- Meithrin hinsawdd o gydgefnogaeth lle mae cydweithio effeithiol yn ffynnu o fewn yr ysgol a thu hwnt er mwyn lledaenu addysgeg effeithiol.
- Meithrin hinsawdd yn yr ysgol sy'n cynnwys diwylliant dysgu sy'n ystyried cyfoeth ac amrywiaeth cymuned a diwylliant yr ysgol.
- Sefydlu a meithrin partneriaethau ag ysgolion eraill i rannu'r arferion gorau.
- Bod yn amlwg o amgylch yr ysgol a neilltuo cryn amser i ryngweithio â dysgwyr, staff a rhieni.

- Annog dinasyddiaeth ymhlith dysgwyr er mwyn iddynt wneud cyfraniad cadarnhaol at gymunedau lleol a chymunedau ehangach.
- Sicrhau bod yr ysgol yn cyflawni rôl gynhyrchiol fel aelod o'i chymunedau lleol, cenedlaethol a byd-eang.
- Creu a hyrwyddo strategaethau cadarnhaol ar gyfer datblygu cysylltiadau hiliol da a delio ag aflonyddu hiliol.
- Hyrwyddo agweddau priodol tuag at anabledd ac anghenion dysgu ychwanegol sy'n hyrwyddo cydraddoldeb a chynhwysiant.
- Ceisio cyngor a chymorth ac yna'n gweithredu yn ei sgil er mwyn cynnal gwelliant yn effeithiol.
- Gweithio'n effeithiol gydag ystod eang o asiantaethau allanol i ddiwallu anghenion pob disgybl.
- Ymgysylltu â chymuned ehangach yr ysgol, gan gynnwys rhieni.
- Cydweithio â'r corff llywodraethu fel y gall gyflawni ei gyfrifoldebau o ran sicrhau dysgu ac addysgu effeithiol a gwella safonau cyrhaeddiad.
- Cymryd rôl strategol yn natblygiad technolegau newydd i wella ac ehangu cyfleoedd cydweithredol i ddisgyblion, staff a llywodraethwyr.

Yn Ychwanegol:

- Mae'n bosib bydd y Corff Llywodraethol yn gofyn i'r Pennaeth gyflawni dyletswyddau eraill yr ystyrir eu bod yn rhesymol yn unol a dyletswyddau a chyfrifoldebau'r swydd.
- Bydd y disgrifiad swydd hwn yn cael ei adolygu'n flynyddol ar ddiwedd y flwyddyn academaidd neu cyn hynny os oes angen.
- Yn ogystal, gellir ei ddiwygio ar unrhyw adeg yn dilyn ymgynghoriad gyda deiliad y swydd.

Mae'r penodiad yn amodol ar ddarpariaeth dogfen cyflog ac Amodau Athrawon / Amodau Cenedlaethol Cyflogaeth i Benaethiaid a ddeddfwriaeth addysgol a chyflogaeth.

## Yn Gyfrifol am Staff / Offer:

Safonau, cynnydd a llesiant yr holl ddisgyblion, staff ac adnoddau.

## Yn Atebol i:

Y Corff Llywodraethu.

| Meini Prawf | Hanfodol |
|---|---|
| Cymwysterau / Hyfforddiant Galwedigaethol | Cymhwyster Graddedig<br>Statws Athro Cymwysedig<br>Cofrestri a Chyngor y Gweithlu Addysg<br>CPCP (Cymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer Prifathrawiaeth) neu'n gweithio tuag at.<br>Astudiaeth broffesiynol berthnasol neu hyfforddiant mewn arweinyddiaeth addysgol. |
| Sgiliau sy'n ymwneud a'r swydd | Gwybodaeth drylwyr am amddiffyn plant, diogelu a damcaniaethau ymlyniad.<br>Dealltwriaeth o Gwricwlwm Cenedlaethol Cymru a phrofiad cadarn o gyflwyno, monitro ac asesu'r cwricwlwm.<br>Dealltwriaeth gadarn o Ddeddf ADY (2018) a Chod ADY (2021) a sut i gynllunio'n strategol ar gyfer diwygio.<br>Profiad pendant a llwyddiannus o ddatblygu strategaethau ar gyfer ymddygiad cadarnhaol sy'n canolbwyntio ar y disgyblion ac sy'n gynhwysol. |
| Cymwyseddau | Arweinyddiaeth<br>Grymuso eraill, a hyrwyddo myfyrio ar ymarfer; Cefnogi lleoliadau eraill, adeiladu rhwydweithiau effeithiol o wybodaeth ac arbenigedd ymarferol; Arfer cyfrifoldeb corfforaethol, gwirio polisïau ar gyfer cydymffurfio a mynd i'r afael ag unrhyw ddiffygion; Dirprwyo, yn briodol ac yn deg a rheoli pobl i sicrhau effeithiolrwydd; Hyrwyddo addysgu ac arweinyddiaeth yng Nghymru gan sicrhau bod y pedwar diben yn cael eu cyflawni; Dadansoddi a gwerthuso data i wneud penderfyniadau gwybodus; Penderfynu a chychwyn gweithredu, gwneud penderfyniadau prydlon a chlir a allai gynnwys dewisiadau anodd neu risgiau ystyriol; Hyrwyddo amrywiaeth a chynhwysiant, parchu gwahaniaethau ac annog cyfraniad; Cynnal egwyddorion a gwerthoedd, hyrwyddo tryloywder o ran penderfyniadau, mae eraill yn teimlo y gallent herio; Dangos uniondeb, arddangos cyfrifoldeb personol a pherchnogaeth; Arwain a Goruchwylio, ysbrydoli eraill heb gau opsiynau'n gynamserol.<br>Dysgu Proffesiynol<br>Cefnogi twf ac arweinyddiaeth ar draws y system, er mwyn meithrin dealltwriaeth, arfer a chanlyniadau gwell; Cefnogi twf mewn eraill, fel model rôl sy'n hyrwyddo dysgu proffesiynol, galluogi cymhwysedd digidol a chroesawu dysgu'r Gymraeg; Rhagolygon darllen ac ymchwil ehangach, gan hyrwyddo dull dysgu sefydliadol; Dysgu proffesiynol parhaus ar gyfer pob aelod o staff, gan greu cyfleoedd |

| | |
|---|---|
| | datblygu; Rhwydwaith a chymunedau proffesiynol, gan gyfrannu at gynadleddau, cyfnodolion ac ymchwil.<br><br><u>Cydweithio</u><br><br>Ceisio cyngor a chymorth, derbyn a mynd i'r afael â'ch heriau proffesiynol chi a'r ysgol; Galluogi gwelliant parhaus, archwilio ac adnabod meysydd i'w gwella ar y cyd, gan yrru cynllun i gefnogi perfformiad gwell; Gweithio'n gynhyrchiol gydag asiantaethau a phartneriaid allanol er budd y sefydliad dysgu; Cynnal diwylliant cydweithredol, gan gefnogi sgiliau a rhinweddau sy'n dod i'r amlwg mewn eraill; Ymgysylltu â chymuned ehangach yr ysgol, adeiladu a chynnal perthnasoedd effeithiol ac agored er mwyn ymgysylltu'n gadarnhaol â phartneriaid â phrofiad a chynnydd dysgwyr.<br><br><u>Addysgeg – Dylanwadu ar Ddysgu</u><br><br>Sicrhau a diogelu hawl dysgwyr fel bod pob dysgwr yn cael mynediad llawn at gyfleoedd ac yn cyflawni; Adrodd ar effeithiolrwydd a sicrhau bod argymhellion yn cael eu cyfleu, eu gweithredu a'u datrys yn effeithiol; Atebolrwydd am ddeilliannau a lles dysgwyr, hyrwyddo a sicrhau bod llwyddiant dysgu, cyflawniad a lles pob dysgwr yn amlwg; Monitro a gwerthuso effaith, gan ddefnyddio systemau effeithiol i asesu a gwella effaith profiadau dysgu.<br><br><u>Addysgeg – Hyrwyddo Dysgu</u><br><br>Hyrwyddo iaith a diwylliant Cymru, gan osod esiampl gydag ymrwymiad cadarnhaol i ddefnyddio a dysgu'r iaith Gymraeg a hyrwyddo diwylliant Cymru; Defnyddio themâu trawsgwricwlaidd, meithrin cysylltiadau rhwng pynciau a meysydd dysgu i ddatblygu profiadau cydlynol i ddysgwyr; Gyrru cyd-destunau a phrofiadau dilys bywyd go iawn o fewn ac ar draws ffiniau pynciau; Sicrhau'r 4 diben i ddysgwyr, drwy gefnogi cynllunio a phwysleisio disgyblaethau pynciau i sicrhau addysgu hynod effeithiol.<br><br><u>Addysgeg – Mireinio Addysgu</u><br><br>Hyrwyddo'r weledigaeth addysgeg, datblygu strategaethau, strwythurau a systemau; Cynnal addysgu hynod effeithiol, meithrin brwdfrydedd mewn staff i fod â diddordeb mewn dysgu, fel bod dysgwyr yn profi addysgu hynod effeithiol; Creu amgylcheddau dysgu effeithiol a chynhwysol, gan alluogi'r pedwar diben ar gyfer dysgu; Gwrando ar ddysgwyr, i roi cipolwg ar effeithiolrwydd yr adran, y cyfnod neu'r ysgol; Hyrwyddo dulliau addysgeg, sicrhau bod datblygu'r cwricwlwm ac uchelgeisiau yng Nghymru yn sail i'r agenda ar gyfer addysgu o safon ac yn ei sbarduno; Sicrhau bod strategaeth a seilwaith yn addas i'r diben, gan reoli'r drefn a dulliau rheoli tymor hir i adlewyrchu'r weledigaeth strategol barhaus.<br><br><u>Arloesedd</u><br><br>Ceisio ac ymestyn arferion gorau, datblygu a rhannu'n barhaus er mwyn hwyluso gwelliannau parhaus; Tuag at 2025, gan gyfeirio sylw |

| | |
|---|---|
| | at y weledigaeth hirdymor ar gyfer Cymru a chydlynu dulliau rheoli o arloesi; Gwerthuso effaith newidiadau mewn ymarfer, gan ystyried ystod eang o faterion; Datblygu technegau newydd, gan sicrhau rhaglen sefydliadol, hirdymor o arloesedd strwythuredig sy'n seiliedig ar dystiolaeth; Deall y system, sut y gall un mater fod yn rhan o system lawer mwy; Canolbwyntio ar atebion, gan gynhyrchu atebion gweithiadwy ac ymarferol i amrywiaeth o broblemau; Cynllunio a Threfnu, nodi a threfnu adnoddau sydd eu hangen i gyflawni tasgau.<br><br><u>Addasu ac Ymateb i Newid</u><br><br>Addasu i newid ac amrywiadau mewn gwaith neu amgylchedd heb effeithio ar effeithiolrwydd, gan weithredu fel cefnogwr ar gyfer newid; Cefnogi newid, gan arddangos meddylfryd twf i fentrau sy'n cynrychioli cynnydd, hyd yn oed pan allai hyn fod yn anodd neu'n anghyfforddus; Addasu arddull bersonol i weddu i wahanol bobl neu sefyllfaoedd, gan ddangos empathi wrth gydnabod emosiynau ynoch chi eich hun ac eraill; Delio'n hyderus ag amwysedd, gan wneud defnydd cadarnhaol o'r cyfleoedd y mae'n eu cyflwyno. |
| Profiad | Pennaeth, Dirprwy Bennaeth, neu brofiad sylweddol ar lefel arweiniol uwch |

| **Sgiliau Iaith / Cyfathrebu** | **Sgiliau Llafar** | **Sgiliau Ysgrifennu** |
|---|---|---|
| **Cymraeg** | 5 | 5 |
| **Saesneg** | 5 | 5 |

| **Gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS)** | |
|---|---|
| Gall gwiriadau DBS fod yn ofynnol ar gyfer rhai swyddi sy'n gweithio gyda phlant ac oedolion agored i niwed. Yn ofynnol ar gyfer y swydd hon: | |
| **Math o Ddatgeliad** | |
| Datgeliad Manwl gan Wirio'r Rhestr Wahardd | x |
| **Math o Weithlu** | |
| Y Gweithlu Plant | x |

| **Gwerthoedd Craidd / Cydraddoldeb ac Amrywiaeth** |
|---|
| Bydd disgwyl i chi lynu wrth Bolisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yr ysgol fel sy'n briodol i lefel atebolrwydd a chyfrifoldeb y swydd o fewn y sefydliad. |